

## Sul y Mamau/Sul y Tadau

Hi a wylia wrth wely  
 heb gyfri'r oriau;  
 hi a ddidana'r eiddilyn  
 ac a gerydda'r anystywallt,  
 ac a'u moldia i'w delw ei hun.  
 Yr Arglwydd yn ei ddoethineb  
 a roes i famau'r ddaear  
 synnwyr a deall da  
 a hwy a roddant i gymdeithas  
 ei chalon.

W. Rhys Nicholas

### EMYNAU

**Dyrchafu Mair y fam o'r crud i'r groes a bore'r atgyfodiad mae'r emynydd:**

Fendigaid Fam, fe glywaist ti  
 gyfarchiad Gabriel uchel-fri;  
 Duw a'th ddewisodd, fam ein Rhi:  
 Henffych well!

J. H. Williams (*Caneuon Ffydd*: 435)

**Canmol cyfraniad tad a mam ar yr aelwyd y mae Glyndwr Williams:**

Arglwydd tirion, derbyn di  
 Glod a mawl ein diolch ni,  
 Am fam Iesu, llawn o ras,  
 Glân ei bywyd, pur ei thras.

R. Glyndwr Williams (*Emynau'r Llan*: 76)

**Ein rhieni sy'n gofalu am gartref clyd, bwyd yn ei bryd, iechyd da a nerth i weithio a mwynhau. Felly diolchwn:**

Cofia bob amser, cofia bob tro,  
 paid ag anghofio dweud, “Diolch”;  
 cofia bob amser, cofia bob tro,  
 cofia ddweud, “Diolch, Iôr.”

Lynda Masson *cyf.* Delyth Wyn (*Caneuon Ffydd*: 145)

### **Yng Ngalilea gynt tyrrai'r mamau at Iesu er mwyn iddo fendithio'r plant:**

Fe rodiai Iesu un prynhawn  
 yng Ngalilea mewn rhyw dref,  
 a'r mamau'n llu a ddug eu plant  
 yn eiddgar ato ef.

Stopford A. Brooke *cyf.* G. Wynne Griffith (*Caneuon Ffydd*: 349)

### **Nod y rhieni yw dysgu eu plant i adnabod Iesu a'i efelychu:**

Dwylo ffeind oedd dwylo  
 Iesu ymhob man,  
 yn iacháu y cleifion  
 a bendithio'r gwan;  
 golchi traed blinedig,  
 dal rhai isa'r byd,  
 dwylo ffeind oedd dwylo  
 Iesu Grist o hyd.

Margaret Cropper *cyf.* Dafydd Owen (*Caneuon Ffydd*: 372)

### **Mae cariad Duw yn Iesu yn rhagori hyd yn oed ar gariad rhieni:**

Tywys di fi i'r dyfodol  
 er na welaf fi ond cam;  
 cariad Duw fydd eto'n arwain,  
 cariad mwy na chariad mam.  
 Mae Calfaria'n profi digon,  
 saint ac engyl byth a'i gŵyr;  
 er i'r groes fod yn y llwybr  
 bydd goleuni yn yr hwyr.

E. Herber Evans (*Caneuon Ffydd*: 726)

**GWEDDIAU****O Dduw, ein mam, diolch am dy ofal, y cysur a'r meithrin:**

Fel y mae mam yn gofalu am ei phlant,  
 yn eu cysuro ar adegau o ofid,  
 eu cadarnhau ar adegau o ansicrwydd,  
 eu hannog ar adeg o her,  
 eu nyrsio ar adeg o waeledd,  
 felly yr wyt ti yn gofalu amdanom ni,  
 yno bob amser i'n cofleidio  
 a'n codi ar ein traed pan fyddwn yn disgyn.

Am ddwyster dy gariad,  
 Arglwydd, molwn di. Amen.

Eirian a Gwilym Dafydd

**Boed i'r eglwys yn ei gofal a'i chonsyrn arddangos cariad rhieni:**

Diolch am y cyfle hwn i gynnal gwasanaeth o ddiolch i ti am bob rhiant da, tyner a gofalus. Boed inni gydnabod ein dyled a'n diolch gan gyflwyno pob mam a thad i'th ofal tyner a thragwyddol, yn enw Iesu Grist, ein Harglwydd. Carem ddiolch am y croeso a gafodd pob rhiant wrth gyflwyno plentyn neu blant i ti i'w derbyn a'u bendithio. Diolch fod dy Eglwys yng Nghrist wedi bod yn gysgod ac yn gymorth i bob cartref. Wrth inni ddiolch a chofio heddiw am yr hyn a gawsom, helpa ni i geisio talu'n ôl mewn ffordd ymarferol. Gwna ni'n garedig a meddylgar, yn gymwynasgar a gofalus ohonynt hwy. Gad inni gofio bob amser eu gofal difflino a dirwgnach. Amen.

Dewi Morris

**Cofiw'n am y teuluoedd heddiw sy'n ei chael hi'n anodd mewn unrhyw fodd:**

Diolchwn am bob dylanwad, hyfforddiant a chefnogaeth a'n paratôdd ar gyfer bywyd. Diolchwn am wersi'r aelwyd lle y magwyd ni, am y disgyblu a fu arnom trwy fyw gydag eraill yn yr un cwmni. Diolch am yr

hyn a gyfrannwyd i'n bywyd ni drwy fywyd y rhai a'n carodd, ac am y feithrinfa naturiol a'n gosododd ar ffordd bywyd. Cofiwn am y gofal a fu trosom yn ystod cystudd ac afiechyd.

Wrth inni ddiolch am yr hyn a brofasom mewn bywyd, cyflwynwn i ti deuluoedd ein dydd, yn arbennig y rhai sydd mewn dryswch a digalondid, mewn hiraeth a helbul. Gwared ni rhag y dylanwadau cyfrwys, grymus sydd heddiw'n tanseilio yr uned deuluol. Amen.

Graham Floyd

### **Dyma weddi pob rhiant boed fam neu dad neu warchodwr:**

Ein Tad,

gwyddost am fy mhryder fel mam  
wrth weld fy mhlant yn tyfu i fyny  
mewn byd lle mae cymaint o beryglon  
a drygioni.

Ond diolchaf wrth gofio

i ti yn dy gariad  
anfon dy Fab i'r byd  
i achub y byd.

Diolch ei fod wedi ei eni

yn fab i'r Forwyn Fair,  
ei fod wedi gwerthfawrogi gofal a chariad ei fam  
ac wedi ei charu hithau a gofalu amdani,  
hyd yn oed ar y groes. Amen.

*Gweddïau i'r Teulu*

### **Boed i esiampl Mair fod yn esiampl i rieni ymhob oes:**

Arglwydd Iesu,

rhone ddiolch i ti am esiampl Mair, dy fam,  
a'th gysegrodd di i wasanaethu Duw:  
diolch i ti am ei chofio  
yn ei galar yn awr dy ddiodefaint.

Cofiwn gartrefi'n gwlad,  
yn enwedig famau ein cymdeithas:

wrth iddynt fagu a meithrin plant,  
 wrth iddynt ddiogelu a diddosi aelwydydd,  
 wrth iddynt ddysgu ac arwain yr ifainc.

Arglwydd, dysg iddynt rodio gyda thi  
 a chadw hwy yn wastad yn dy ffordd. Amen.

John H. Tudor

### **Wrth i ni glodfori'r fam y mae'n rhaid i ni gofio am y tad hefyd:**

O Dduw wrth i ni gofio a chlodfori'r fam  
 nad anghofiwn gyfraniad y tad:  
 y tad sy'n gweithio i gynnal y teulu yn ariannol,  
 y tad sy'n gwneud ei ddyletswyddau o gwmpas y tŷ,  
 y tad sy'n mynd â'r plant am dro  
 ac yn mynd â'r plant o le i le gyda'r nos a dros y Sul.  
 Diolchwn am y tad sy'n gefn i'w deulu,  
 yn creu'r undod rhyngddo â'r fam a'r plant  
 ac yn ffyddlon a chariadus ei ymroddiad. Amen.

### **ADNODAU**

#### **Mae rhieni Iesu'n ei arwain ar hyd y ffordd orau ar ddechrau'r daith:**

Pan ddaeth amser eu puredigaeth yn ôl Cyfraith Moses, cymerodd ei  
 rieni ef i fyny i Jerwsalem i'w gyflwyno i'r Arglwydd.

Luc 2: 22

#### **Mae'n weddus i'r plant bob amser ufuddhau i'w rhieni a dyma fan cychwyn ufudd-dod i Dduw:**

Chwi blant, ufuddhewch i'ch rhieni yn yr Arglwydd, oherwydd hyn sydd  
 iawn.

Effesiaid 6: 1

## **Mae gan y tad a'r fam gyfraniad ym magwraeth y plentyn:**

Fy mab, gwranddo ar addysg dy dad, paid â gwrthod cyfarwyddyd dy fam;

Diarhebion 1: 8

## **Fel y mae mam yn cysuro ei phlentyn felly y bydd Duw yn cysuro ei bobl:**

Fel y cysurir plentyn gan ei fam  
byddaf fi'n eich cysuro chwi;  
ac yn Jerwsalem y'ch cysurir.

Eseia 66: 13

## **Yng ngwewyr Gethsemane galw am gymorth ei Dad wnaeth Iesu:**

“Abba! Dad!” meddai, “y mae pob peth yn bosibl i ti. Cymer y cwpan hwn oddi wrthyf. Eithr nid yr hyn a fynnaf fi, ond yr hyn a fynni di.”

Marc 14: 36

## **Perthynas unigryw tad a mab yw perthynas Iesu a Duw:**

Myfi a'r Tad, un ydym.

Ioan 10: 30

## **DYWEDIADAU A THRADDODIADAU**

Yn y calendr Cristnogol mae Sul y Fam yn syrthio ar y pedwerydd Sul yn y Grawys.

Yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg byddai pobl ar y pedwerydd Sul yn y Grawys yn dychwelyd i'r fam-eglwys neu'r gadeirlan a byddai'r rhai oedd yn gweini yn cael caniatâd i fynychu'r eglwys ar y Sul hwn.

Yn nhrymder y Grawys pan fyddai aelodau o'r teulu'n dychwelyd adref byddid yn paratoi teisen simnel ar gyfer y teulu. Teisen ffrwythau gyda'r

marsipán arni yw hon gydag un ar ddeg o beli marsipán arni, i gofio am yr un disgybl ar ddeg. Jwdas oedd yr un a waherddid.

Ar Sul y Fam byddid yn darllen o'r Llythyr at y Galatiaid oedd yn cyfeirio at ddinas Jerwsalem fel 'ein mam ni'. (Galatiaid 4: 26)